

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Luc 10: 38-42




ADNOD ALLWEDDOL
Luc 10: 42

Gofynnwch i rywun eich
helpu i chwilio am yr adnod
hon.

Stori 1 Iesu'n Dysgu.

Ydych chi'n hoffi pan fydd pobl ddiarth yn dod i'ch tŷ chi? Mae llawer o bethau i'w gwneud cyn iddyn nhw gyrraedd – tacluso a glanhau'r tŷ, siopa a gwneud bwyd. Efallai'ch bod chi'n helpu weithiau. Roedd Martha'n byw ym mhentref Bethania. Roedd hi'n garedig iawn wedi gofyn i'r Arglwydd Iesu a'i ddisgyblion ddod i'w thŷ. Roedd Martha eisiau gwneud ei gorau iddyn nhw – roedd Iesu'n ffrind arbennig iawn.




C Lle oedd Martha'n byw? **B** _____.

C Ysgrifennwch enw'r ffrind arbennig ar y cerdyn.

Yr A _____ I _____


C Pwy arall oedd yn dod? Ei dd _____.

Cyn hir, daeth y bobl ddiarth. Ond roedd llawer o bethau gan Martha i'w gwneud o hyd. Doedd ganddi ddim amser i eistedd i lawr i sgwrsio. Pan oedd hi'n brysur yn gwneud y bwyd, roedd ei chwaer, Mair, yn eistedd wrth draed Iesu'n gwranddo arno'n siarad.



Roedd Martha'n mynd yn fwy a mwy blin a chrac. Doedd neb yn ei helpu. Roedd wedi cael llond bola! Aeth i'r man lle'r oedd Iesu'n eistedd gyda Mair. "Arglwydd, mae fy chwaer wedi fy ngadael i wneud y gwaith i gyd ar fy mhen fy hunan. Dwed wrthi ddod i fy helpu i," meddai Martha. Siaradodd Iesu'n garedig â Martha. Dywedodd wrthi nad oedd angen iddi fynd i'r holl drafferth a mynd i banic. Roedd Martha'n gwneud rhywbeth da, yn gwneud bwyd blasus i Iesu, ond nid dyna'r peth pwysicaf ar y pryd. Roedd hi wedi colli clywed Iesu'n siarad. Mair oedd wedi gwneud y peth gorau - eistedd i wrando ar Iesu.


C Tynnwch linell i ddangos beth a wnaeth Mair a Martha.
(Defnyddiwch bensil lliw gwahanol ar gyfer y ddwy chwaer)



Mae'n bwysig ein bod ninnau'n gwneud amser i wrando'n ofalus ar beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym ac i ddysgu o'i Air Ef, y Beibl.

C Lliwiwch y geiriau a'r llun.

Y Beibl



C Beth yw'r peth pwysicaf i ni ei wneud?
Rhowch linell dan yr ateb cywir.

Bod yn brysur yn chwarae a chael hwyl.
Gwrando ar Iesu a bod yn ufudd iddo.

6

4

2



DARLLENWCH

Ioan 11: 1-7 ac 17-44

ADNOD
ALLWEDDOL

Ioan 11: 25

Gofynnwch i rywun
eich helpu i chwilio
am yr adnod hon.

Stori 2 Iesu'n rhoi Bywyd.

Ydych chi'n cofio bod yn drist erioed? Efallai bod un o'ch teganau wedi torri neu'r gath neu'r ci wedi marw. Roedd Martha a Mair yn drist iawn pan oedd eu brawd yn sâl. Roedden nhw eisiau i Iesu ddod ac felly fe anfonon nhw neges ato. Roedden nhw'n gwybod y gallai e wella Lasarus. Ond dewisodd Iesu beidio â dod. Roedd e'n gwybod beth oedd orau i Mair a Martha. Roedd yn gwybod beth fyddai'n digwydd yn y diwedd.



C Pwy oedd yn sâl iawn? **L** _____ .

C Pwy oedd Mair a Martha eisiau ei weld yn dod? **I** _____ .

Cyn hir, fe wnaeth Lasarus farw. Cafodd ei gorff ei lapio mewn darnau o ddefnydd a'i roi mewn ogof â charreg fawr ar draws ei cheg. Roedd Mair a Martha'n meddwl na fydden nhw byth yn gweld Lasarus eto. Roedden nhw'n teimlo'n drist iawn. Ar ôl rhai diwrnodau, penderfynodd Iesu fynd i weld Mair a Martha. Pan glywodd Martha fod Iesu'n dod aeth hi i gwrdd ag ef. Roedd hi'n meddwl tybed pam na ddaeth Iesu'n gynt. Dywedodd Iesu y byddai Lasarus yn dod yn fyw eto. Mae'n siwr bod Martha'n teimlo'n well wedyn. Mae pawb sy'n credu yn Iesu yn cael byw am byth yn y Nefoedd.

C Pa chwaer aeth i gwrdd â Iesu gyntaf? **M** _____ .



Cyn hir, daeth Martha adref a dweud wrth Mair bod Iesu eisiau ei gweld. Roedd Mair yn dal yn drist ac roedd hi'n crïo. Aethon nhw â Iesu at fedd Lasarus.

Wrth i Iesu feddwl am ei ffrind annwyl Lasarus, roedd e'n drist iawn hefyd ac fe wnaeth e lefain.



DARLLENWCH
Ioan 12: 1-11





ADNOD ALLWEDDOL
I Ioan 4: 19

Gofynnwch i rywun
eich helpu i chwilio
am yr adnod hon.

Stori 3 Caru Iesu.


Mae rhai pobl yn gwneud llawer o bethau i'n helpu ni. Mae'r rhain yn bobl arbennig i ni. Mae'n dda dweud "Diolch" wrthyn nhw am ein helpu. Weithiau mae pobl yn rhoi arheg i ddweud "Diolch" wrth rywun sydd wedi eu helpu.

C Tynnwch lun arheg i ddweud "Diolch".



Roedd Mair a Martha'n falch iawn fod Iesu wedi rhoi Lasarus yn ôl iddynt. Roedden nhw'n ddiolchgar iawn i Iesu. Roedden nhw eisiau dangos eu diolch iddo felly dyma nhw'n trefnu pryd o fwyd arbennig iddo. Roedd Lasarus yno, yn eistedd gyda Iesu, wedi gwella'n iawn erbyn hyn. Roedd Martha'n falch o gael gwneir bwyd. Roedd Mair eisiau gwneud rhywbeth arbennig iawn i ddangos ei bod yn diolch i Iesu. Roedd ganddi botel o bersawr drud ac fe wnaeth hi arllwys y persawr dros draed Iesu. Roedd arogl da y persawr yn llenwi'r tŷ. Roedd hynny'n beth hyfryd iawn i'w wneud.


C Rhowch lythyren y llun cywir ym mhob boc.



Roedd gan Mair botel o



Arllwysodd hi dros ei



Sychodd Mair ei draed â'i



Roedd un dyn yn yr ystafell yn anghytuno â beth wnaeth Mair. Jwdas oedd ef, un o'r disgyblion. Roedd e'n meddwl bod defnyddio'r persawr fel hyn yn wastraff arian. "Byddai'n well gwerthu'r persawr a rhoi'r arian i bobl dlawd," meddai. Ond, gwaetha'r modd, nid oedd Jwdas yn poeni am y bobl dlawd o gwbl. Roedd Jwdas yn berson barus a chrintachlyd. Byddai Jwdas wedi gwerthu'r persawr ac wedi cadw'r arian iddo fe'i hunan.

C Tynnwch linell syth o bob cwestiwn i'r enw cywir.

PWY

oedd y gwestai arbennig wrth y bwrdd? **Martha**

oedd yn flin/grac? **Mair**

ddangosodd ei bod yn caru Iesu? **Lasarus**

oedd yn gweini'r bwyd? **Iesu**

oedd yn eistedd gyda Iesu wrth y bwrdd? **Jwdas**

10

Roedd Jwdas yn gwybod ei fod yn bersawr drud ond, i Mair, roedd Iesu'n werth llawer mwy na phris y persawr. Doedd Jwdas ddim yn sylweddoli gwerth Iesu. Roedd Iesu'n falch bod Mair wedi defnyddio'r persawr i ddangos faint roedd hi'n ei garu.

Wrth feddwl faint y mae Iesu'n ein caru ni a'i fod wedi rhoi ei fywyd i'n hachub ni, dylai fod yn werthfawr i ni hefyd. Gallwn ni, fel Mair, ei garu ef am iddo ef ein caru ni.



C Lliwiwch y geiriau o'r Adnod Allweddol.

“Yr ydym ni'n caru, iddo ef yn gyntaf ein caru ni.”

2

I Ioan 4: 19



“DARLLENWCH
Luc 19: 28-44



ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 1: 12


Gofynnwch i rywun
eich helpu i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 4 Edrych ar Iesu

Roedd Iesu'n gwybod ei fod yn mynd i Jerwsalem am y tro olaf. Cyn hir byddai'n bryd iddo farw fel y gallai Duw faddau'n pechodau ni – dyna pam y daeth Iesu i'r byd. Yn aml, mae pobl bwysig yn teithio mewn ceir mawr crand. Roedd Iesu'n gwybod y byddai ef yn mynd i mewn i

Jerwsalem mewn ffordd arbennig – roedd Duw wedi trefnu hynny ac roedd wedi dweud hynny yn y Beibl ymhell cyn i Iesu gael ei eni.


Pan oedden nhw bron â chyrraedd Jerwsalem, gofynnodd Iesu i ddau o'i ddisgyblion fynd o'i flaen. Dywedodd y bydden nhw'n dod o hyd i asyn wedi'i



glymu. Gofynnodd iddyn nhw ddod â'r asyn ato ef.

Cyn hir daeth y disgyblion o hyd i'r asyn a dod ag ef at Iesu.

Rhoddon nhw eu cotiau ar ei gefn fel cyfrwy ac eisteddodd Iesu ar gefn yr asyn. Wrth iddo gyrraedd Jerwsalem ar gefn yr asyn roedd llawer o bobl yn dod i'w weld ac yn taflu eu cotiau ar yr heol fel carped. Roedd y dyrfa'n cynhyrfu ac yn moli Duw. Roedden nhw'n gwybod mai hwn oedd y Brenin arbennig yr oedd Duw wedi ei anfon iddyn nhw.



C Rhowch √ neu × i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn Gywir neu'n Anghywir:-

Roedd Iesu'n dod i Fethlehem.

Byddai'n marw cyn hir.

Gofynnodd Iesu i dri disgybl fynd o'i flaen.

Daeth y disgyblion o hyd i asyn wedi'i glymu.

Rhoddon nhw eu cotiau ar gefn yr asyn.

Cerddodd Iesu i Jerwsalem gan arwain yr asyn.

C Lliwiwch y geiriau yr oedd y dyrfa yn eu gweiddi wrth i Iesu fynd heibio ar gefn yr asyn.



Bendigedig
yw'r un sy'n
dod yn enw'r
Arglwydd!

2

Roedd y bobl hyn eisiau cael Iesu'n frenin ond roedd pobl eraill yn y dyrfa nad oedd yn hoffi Iesu o gwbl. Roedden nhw'n anfodlon bod cymaint o bobl yn gweiddi "Hwre!" Roedd Iesu'n gwybod y byddai'r bobl hynny'n cael eu ffordd cyn hir ac yn trefnu i'w ladd.

Mae gan bawb ohonom ddewis pwysig i'w wneud am yr Arglwydd Iesu. Naill ai gallwn ei groesawu i'n bywydau neu gallwn ei wrthod. Mae'n well ei wahodd i mewn i'n bywyd ni. Pan wnawn ni hynny, bydd Duw'n dweud ein bod yn rhan o'i deulu ef.

C Rhowch lythrennau'r ddau air diwethaf yn yr Adnod Allweddol yn eu trefn. Mae'n dweud beth sy'n digwydd pan fyddwn ni'n derbyn Iesu i'n bywydau "... rhoddodd iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn _____ t a n b l l / w u D

_____ / _____."

2

C Yn y Chwilair, chwiliwch am y pedwar gair hyn o'r stori a rhoi cylch o'u cwmpas.

COTIAU
ASYN
TYRFA
BRENIN

C	O	T	I	A	U	P
O	R	Y	B	E	W	L
A	B	R	E	N	I	N
S	C	F	F	R	I	N
B	E	A	S	Y	N	U

4

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllogor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

Cyfes lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120